

Fersiwn		3
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Mawrth 2022

Y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Diversity and Inclusion Team
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Canllaw ar gyfer **Asesu Effaith ar Gydraddoldeb**

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Canllaw ar gyfer <i>Asesu Effaith ar Gydraddoldeb</i>
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	(01443) 444531
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	
Swyddog Adolygu	Melanie Warburton
Dyddiad Diwygio	Mawrth 2021
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mai 2015	Dilys Jouvenat
Mawrth 2021	Melanie Warburton
Mawrth 2022	Melanie Warburton
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	Mai 2015
Uwch Reolwyr y Cyngor	Mawrth 2021
Y Cabinet	

1. PRIF DERMAU	4
2. CYFLWYNIAD.....	5
3. TROSOLWG O'R BROSES AR GYFER CYNNAL ASESIAU EFFAITH	6
4. DATGANIAD POLISI ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	8
5. FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL.....	8
5.1 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	8
5.2 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig) ...	9
5.3 Sylw Dyledus	9
6. BETH YW ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB?	10
7. PRYD YDW I'N DECHRAU PROSES YR ASESIAID?	10
8. BETH YW'R BROSES SGRINIO?	11
9. BETH MAE 'EFFAITH' YN EI OLYGU?.....	11
9.1 Effaith Negyddol neu Niweidiol	11
9.2 Effaith Gadarnhaol.....	11
9.3 Effaith Niwtral.....	12
10. CASGLU TYSTIOLAETH YNGHYD.....	12
10.1 Data.....	12
10.2 Ymgysylltu	13
11. CYFIAWNHAU EFFAITH NEGYDDOL	15
12. PRYD DYLWN I YSTYRIED CYNNAL ASESIAID LLAWN?	15
13. ASESU EFFAITH ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL.....	15
13.1 Beth yw diffiniad 'Penderfyniad Strategol' yn rhan o'r ddyletswydd?	15
13.2 Tystiolaeth ac Ymgysylltu	16
13.3 Enghreifftiau o Anghydraddoldeb o ran Deilliannau sy'n deillio o Anfantais Economaidd-gymdeithasol	16
14. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ADRODD.....	18
15. MANYLION CYSWLLT	20
ATODIAD 1	21
15.1 PROBLEMAU POSIBL	21

1. PRIF DERMAU

Penderfyniadau Strategol	Penderfyniadau strategol yw'r rheiny sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei ddiben statudol arfaethedig (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser. Fydd y rhain ddim yn cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol.
Cymunedau Buddiant	<p>Mae modd ystyried y rheiny sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig sydd wedi'u rhestru yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn gymunedau buddiant.</p> <p>Grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un profiad, e.e. pobl sydd wedi profi digartrefedd, y system iechyd a gofal cymdeithasol neu wasanaeth lleol. Mae'n debygol y bydd pobl yn gorgyffwrdd â sawl cymuned buddiant.</p> <p>Yn yr un modd, gall y rheiny sy'n rhannu hunaniaeth fod yn gymunedau buddiant hefyd, e.e. rhieni a chynhalwyr sengl.</p>
Cymunedau Lle	Mae hyn yn cyfeirio at bobl sydd â chysylltiad â'i gilydd oherwydd ble maen nhw'n byw, gweithio, ymweld â neu fel arall yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yno.
Sylw Dyledus	Trin a thrafod mater penodol mewn ffordd sy'n gymesur â'i berthnasedd.
Anghydraddoldeb o ran Deilliannau	Mae anghydraddoldeb o ran deilliannau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau y mae modd eu mesur rhwng y rheiny sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth, a hynny mewn perthynas â'r deilliannau.
Rhyngblethedd	<p>Cydnabyddiaeth o sut mae adeileddau grym sy'n seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gormes.</p> <p>Dydy hi ddim yn bosibl deall un math o wahaniaethu mewn gwacter ac ar wahân o fathau eraill o wahaniaethau, a ddylai hyn fyth digwydd chwaith. Mae dull sy'n ystyried rhyngblethedd yn ei gyfanrwydd yn sicrhau bod hyn ddim yn digwydd.</p>
Penderfyniad Allweddol	<p>Diffiniad 'Penderfyniad Allweddol' y Cyngor yw:</p> <p>"penderfyniad, sy'n debygol:</p> <p>a) o arwain at yr Awdurdod Lleol perthnasol yn ysgwyddo gwariant sylweddol neu wneud arbedion sylweddol [....] neu</p>

	b) a fydd yn arwyddocaol o ran sut mae'n effeithio ar gymunedau sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal sy'n cynnwys dwy etholaeth neu adran etholiadol neu fwy."
Nodweddion Gwarchoddedig	<p>Mae hyn yn cyfeirio at grwpiau sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oedran • anabledd • ailbennu rhywedd • priodas a phartneriaeth sifil • beichiogrwydd a mamolaeth • hil • crefydd neu gred • rhywedd • cyfeiriadedd rhywiol <p>Mae rhagor o wybodaeth am y nodweddion gwarchoddedig ar gael yma (Saesneg yn unig).</p>
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	<p>Dyletswydd sydd wedi'i chynnwys yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd â'r nod o integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb a chreu a chynnal perthynas dda yn rhan o waith o ddydd i ddydd awdurdodau cyhoeddus.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am y Ddyletswydd ar gael yma (Saesneg yn unig).</p>
Anfantais Economaidd-gymdeithasol	Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.


2. CYFLWYNIAD

Cafodd y canllawiau yma eu llunio i gynorthwyo rheolwyr wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gynigion newydd neu ddiwygiedig. Bydd y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn darparu cymorth priodol i gefnogi cydweithwyr yn ôl yr angen.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn offeryn hanfodol wrth ddatblygu eich achos busnes dros gynnig mewn perthynas â newid o ran swyddogaeth, gwasanaeth neu bolisi. Bydd yr offeryn yn eich annog i ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer eich cynnig. Os dydych chi ddim yn ystyried sut y gall cynnig effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd, mae'n annhebygol o gael yr effaith rydych chi'n ei dymuno. Gall hyn gyfrannu at fwy o anghydraddoldeb a deilliannau gwael.

3. TROSOLWG O'R BROSES AR GYFER CYNNAL ASESIADAU EFFAITH

Isod ceir trosolwg o'r broses i'w dilyn. Mae wedi'i hintegreiddio â'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg y mae'n bosibl y bydd raid i chi ei gwblhau hefyd.



4. DATGANIAD POLISI ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn ei holl waith. Ein nod yw bod yn Gyngor cynhwysol sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu pob gweithiwr, ymgeisydd am swydd, cwsmer, unigolyn sy'n byw yn ein hardal ac ymwelydd â'n hardal. Rydyn ni o'r farn bod gyd phawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf yr hawl i gael ei drin yn deg, ac i fyw heb ddioddef gwahaniaethu.

Byddwn ni'n gweithio er mwyn sicrhau bod pawb yn ein cymunedau'n gallu cyrchu ein gwasanaethau a'n gwybodaeth. Byddwn ni'n ystyried anghenion gwahanol bobl wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau a'n harferion, ac yn ceisio sicrhau bod ein dull o weithredu'n gynhwysol i bawb.

A ninnau'n gyflogwyr, byddwn ni'n gweithio i hyrwyddo bywyd gwaith cadarnhaol ar gyfer ein holl weithwyr. Ein nod yw creu gweithle cynhwysol lle mae diwylliant sy'n rhydd rhag aflonyddwch a gwahaniaethu, a lle mae'r gwahaniaethau rhwng pobl yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Ein nod yw hyrwyddo amgylchedd yn Rhondda Cynon Taf lle rydyn ni'n herio rhagfarn, ystrydebau a rhagdybiaethau negyddol am bobl ac am grwpiau o bobl.

5. FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

A ninnau'n gorff cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5.1 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallen nhw gyfrannu i gymdeithas decach mewn ffordd gadarnhaol, a hynny drwy hybu cydraddoldeb a chreu a chynnal perthynas dda yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r Ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori wrth lunio polisi a darpariaeth gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl sydd ddim yn ei rhannu

5.2 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

Mae cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd -gymdeithasol ym mis Mawrth 2021 yn golygu bod erbyn hyn, rhaid i ni feddwl sut y gall penderfyniadau strategol, er enghraifft, pennu amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, wella anghydraddoldeb o ran deilliannau i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Ddyletswydd yn rhan allweddol yn broses o gefnogi'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

5.3 Sylw Dyledus

O ran y Ddeddf Cydraddoldeb a'r gyfraith, rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r penderfyniadau y mae'n dod iddyn nhw. Mae hyn yn golygu trin a thrafod mater penodol mewn ffordd sy'n gymesur â'i berthnasedd. Mae sylw dyledus yn gysyniad cyfreithiol wedi'i sefydlu'n rhan o gyfraith cydraddoldeb. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ('yr Asesiad') yn offeryn i helpu i ddangos bod sylw dyledus wedi'i roi i gynigion.

Bydd Aelodau Etholedig, yr Uwch Reolwyr a'r Panel Adolygu yn gofyn y cwestiynau canlynol i'w hunain mewn perthynas â'ch cynnig, ynghylch a ydych chi wedi rhoi sylw dyledus:

1.	Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried wrth baratoi ar gyfer y penderfyniad. A oes yna unrhyw ddiffygion neu fylchau yn y dystiolaeth?
2.	Beth mae barn y bobl a chymunedau yn ei dweud wrthym ni? (Gan gynnwys y rheiny sydd â phrofiad byw o anfantais economaidd-gymdeithasol).
3.	Beth mae'r dystiolaeth yn ei hawgrymu am effeithiau gwirioneddol neu debygol y penderfyniad o ran anghydraddoldebau o ran deilliannau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?
4.	A yw rhai cymunedau buddiant neu gymunedau lle yn cael eu heffeithio'n fwy gan anfantais yn yr achos yma nag eraill?
5.	Beth mae ein Hasesiad yn ei ddweud wrthym ni am rywedd, hil, anabledd a nodweddion gwarchoddedig eraill y gallai fod angen i ni eu cynnwys yn ein penderfyniadau ochr yn ochr â'r rheiny sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?
6.	Pa dystiolaeth sy'n bodoli eisoes sydd gyda ni am y cynnig arfaethedig, gan gynnwys yr hyn y byddai modd ei wneud yn wahanol?

A chithau'n Swyddog Arweiniol, mae'n bwysig eich bod yn myfyrio ar y cwestiynau uchod i sicrhau eich bod wedi cyflwyno'r dystiolaeth ar eu cyfer yn ddigonol yn rhan o'r Asesiad. Gall methu â gwneud hynny arwain at oedi wrth ddod i benderfyniadau

ar eich cynnig. Hefyd, gall methu â rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol arwain at unigolyn neu grŵp yn sefydlu achos adolygiad barnwrol.

Mae rhagor o wybodaeth am y cysyniad o roi sylw dyledus ar gael isod:

- [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Making Fair Financial Decisions](#) (Saesneg yn unig)
- [Llywodraeth Cymru - Paratoi i Gychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#)

6. BETH YW ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB?

Mae'r Asesiad yma yn gymorth i ni asesu a chofnodi effaith debygol mentrau ar unigolion a grwpiau yn y gweithle neu yn y gymuned.

Mae hefyd yn gymorth i'r Cyngor fodloni gofynion y dyletswyddau cydraddoldeb statudol ac i bennu camau gweithredol er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae cynnal Asesiad yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol (neu wirioneddol) cynigion ar bobl mewn perthynas ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yn cynnwys chwilio am ble y byddai modd hybu cydraddoldeb o ran cyfleoedd, yn ogystal â mesur effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

7. PRYD YDW I'N DECHRAU PROSES YR ASESIAD?

Mae'n bwysig eich bod yn dechrau llenwi ffurflen yr Asesiad cyn gynted â phosibl, gan ei bod yn offeryn hanfodol i'ch helpu chi wrth lunio eich achos busnes. Mae'r ffurflen yma wedi'i dylunio i adlewyrchu'r llwybr naturiol rydych chi'n ei ddilyn wrth asesu effaith. Dylai'r penderfyniad eisoes gael ei gynnwys yn rhan o Raglen Waith y Cabinet/ Cyngor os yw'n [Benderfyniad Allweddol](#).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i gwblhau'r broses asesu lawn, oherwydd bydd gofyn i chi ddiweddarau'n barhaus i adlewyrchu unrhyw adborth gan y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu a/neu argymhellion y Panel Adolygu cyn i'r adroddiad symud ar hyd y llwybr perthnasol ar gyfer dod i benderfyniad. Dylai fod cyfle hefyd i gynnal cam cyn-graffu ar y penderfyniad, os yw'n briodol.

Mae dyluniad y ffurflen yn eich galluogi i ychwanegu gwybodaeth ynghylch eich canfyddiadau yn sgil gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae angen i chi ddangos yr effeithiau cadarnhaol a negyddol rydych wedi dod o hyd iddyn nhw drwy eich gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid a'r grwpiau cymunedol y mae'ch penderfyniad yn debygol o effeithio arnyh nhw.

8. BETH YW'R BROSES SGRINIO?

Y cam cyntaf yw sgrinio eich cynnig.

Caiff gwaith sgrinio ei ddefnyddio i bennu'r ffactorau sy'n effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig. Gallai'r effeithiau yma fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral. Bydd effeithiau negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig yn gofyn am gynnal Asesiad llawn.

Does dim angen cynnal Asesiad ar gyfer pob cynnig, e.e. fydd rhai gweithdrefnau technegol neu bolisiau mewnol ddim yn cael unrhyw effaith ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth o gwbl.

Nod adran sgrinio ffurflen yr Asesiad yw gwneud y broses mor hawdd â phosibl, gan sicrhau y gall unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chasglu ynghyd yn ystod y cam sgrinio/perthnasedd gael ei defnyddio os bydd angen Asesiad llawn.

9. BETH MAE 'EFFAITH' YN EI OLYGU?

Mae yna dair effaith bosibl y gallwn ni eu nodi wrth asesu ein cynigion:

9.1 Effaith Negyddol neu Niweidiol

Dyma le mae'n cael ei nodi y gall y cynnig (neu ryw agwedd arni) achosi anfantais i un rhan neu ragor o'r gymuned. Gall yr effaith niweidiol neu negyddol ddwyn gwahanol anfantaision gan ddibynnu ar y rhan o'r gymuned sydd o dan sylw, a gall fod yn fwy anfantaisiol i rai nag i eraill. Gall effaith negyddol fod yn hollol anfwriadol, a gall ddod i'r amlwg wrth gyflawni gwaith ymchwil neu ymgynghori.

Gall effaith negyddol ddigwydd hefyd pan fydd cynnig yn cael ei ddileu neu pan fydd darpariaeth gwasanaeth neu fenter yn dirwyn i ben. Am hynny, dylid cynnal ymarfer sgrinio'r Asesiad wrth ddod i benderfyniad o ran a ddylid dirwyn menter i ben ai peidio hefyd.

9.2 Effaith Gadarnhaol

Dyma le mae'n cael ei nodi y gall menter (neu ryw agwedd arni) gael effaith gadarnhaol ar un neu ragor o rannau o'r gymuned, neu le y gall wella'r berthynas rhwng gwahanol rannau o'r gymuned. Eto, gall hyn gael effeithiau sy'n wahanol i'w gilydd, a all fod yn fwy buddiol i rai nag i eraill.

Mae effeithiau cadarnhaol yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac mae'n bwysig eich bod chi'n cynnwys yr wybodaeth yma ar y ffurflen sgrinio hefyd.

9.3 Effaith Niwtral

Dyma le mae'r dystiolaeth yn nodi bod yna ddim deilliannau negyddol na chadarnhaol i bobl â nodweddion gwarchoddedig o ganlyniad i'r cynnig.

Er mwyn eich helpu i nodi effeithiau ar grwpiau gwarchoddedig, mae Atodiad 1 yn disgrifio rhai materion posibl yr hoffech eu hystyried wrth weithio gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodwedd warchoddedig.

10. CASGLU TYSTIOLAETH YNGHYD

10.1 Data

Er mwyn cefnogi'ch casgliadau wrth bennu effeithiau ar grwpiau gwarchoddedig, mae'n holl bwysig eich bod yn casglu ynghyd tystiolaeth berthnasol a chyfredol. Gall y dystiolaeth yma ddod o nifer o ffynonellau a bod mewn nifer o fformatau:

Ymchwil ac Adroddiadau Allanol

Cyhoeddiadau, cyfnodolion ac adroddiadau perthnasol, er enghraifft:

- [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - A yw Cymru'n Decach? \(2018\)](#)
- [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru](#)
- [Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol Chwarae Teg](#)
- [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#)

Ffynonellau Data Allanol

Ystadegau perthnasol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffynonellau eraill, megis melinau trafod a'r trydydd sector, er enghraifft:

- [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#)
- [Gwybodaeth o'r Cyfrifiad](#)
- [Sefydliad Bevan](#) (Saesneg yn unig)

Polisi ac Adroddiadau Mewnol

Strategaeth, polisi ac adroddiadau mewnol perthnasol, er enghraifft:

- [Adroddiadau'r Cabinet](#)
- [Cynllun Corfforaethol](#)
- [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) a'r [Adroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol](#)
- [Cynllun Llesiant Cwm Taf](#)

Ffynonellau Data Mewnol

Mae gyda'r Cyngor ystod eang o ddata ar weithwyr a chwsmeriaid, er enghraifft:

- Data ar y gweithlu
- Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb Cwsmeriaid
- Data ar ddefnydd y gwasanaeth
- Bodlonrwydd cwsmeriaid

Adborth ar Ffynonellau Data

Pan fyddwch chi'n anfon yr asesiad at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant i gael eu hadborth, rhaid i chi ei anfon at y Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu hefyd – ymgynghori@rctcbc.gov.uk. Byddan nhw'n rhoi adborth ar y data rydych chi wedi'i ddefnyddio i gefnogi eich datganiadau, yn ogystal â nodi a fyddai modd defnyddio unrhyw adborth ychwanegol o'r broses ymgynghori. Hefyd, efallai yr hoffech chi siarad â'r Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu yn gynharach yn eich proses os oes angen unrhyw help arnoch chi i nodi a chael gafael ar ffynonellau data posibl, a/neu eu dadansoddi.

10.2 Ymgysylltu

Mae cynnwys cymunedau a sefydliadau'r trydydd sector yn rhan o'r broses dod i benderfyniadau yn allweddol er mwyn dod i'r penderfyniadau cywir a sicrhau bod yr hyn sy'n deillio ohonyn nhw yn gadarnhaol.

Beth yw ymgysylltu?

Mae ymgysylltu'n derm eang sy'n cwmpasu ystod o wahanol weithgareddau, o ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol i gynnwys ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl o grwpiau gwarchoddedig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae ymgysylltu'n gallu rhoi gwybod i chi ymhle rydych chi'n llwyddo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, ac ymhle y mae'r angen mwyaf i weithredu. Mae'n arbennig o ddefnyddiol lle mae diffygion o ran gwybodaeth.

Pam dylech chi ymgysylltu?

Gall ymgysylltu eich helpu i ddeall effaith eich cynnig ar grwpiau gwarchoddedig a'r rheiny sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd yn eich helpu i gasglu ynghyd safbwyntiau, profiadau a syniadau'r bobl hynny y mae, neu y bydd, eich penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw. Gall eich helpu chi i seilio eich polisi ar dystiolaeth yn hytrach nag ar ragdybiaethau. Gall fod yn ddefnyddiol wrth ddod o hyd i atebion i broblemau ac wrth oresgyn y rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu. Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yn ffordd werthfawr o fonitro a gwerthuso llwyddiant eich mentrau, ac o ddeall lle bo angen cyflawni gwelliannau. Am yr holl resymau yma, mae ymgysylltu yn ofyniad cyfreithiol o dan gyfraith cydraddoldeb.

Bydd ymgysylltu yn eich helpu i ddylunio gwasanaethau mwy priodol. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn effeithiol ac o ddefnyddio adnoddau'n well. Gallwch chi osgoi costau camau unioni gwasanaethau a'u haddasu ar ôl eu rhoi ar waith, ac achub y blaen ar gwynion, sy'n gallu bod yn gostus a llyncu amser.

Â phwy y dylech chi ymgysylltu?

Dylech chi ymgysylltu â'r rheiny sydd â buddiant yn y fenter rydych chi'n ei hasesu, ac yn arbennig lle mae'r broses sgrinio wedi clustnodi effaith negyddol wirioneddol neu bosibl.

Fydd hi ddim yn ymarferol i ymgysylltu â phob grŵp gwarchoddedig mewn perthynas â phob penderfyniad. Fel man cychwyn, bydd angen i chi benderfynu pa mor berthnasol y bydd y fenter ar gyfer unrhyw grŵp neu grwpiau. Dylai'r broses sgrinio fod wedi amlygu'r wybodaeth yma.

Sut dylech chi fynd ati i ymgysylltu â phobl?

Mae holl bwysig bod yn glir o'r cychwyn cyntaf beth yw diben yr ymgysylltu. Dylech chi ystyried y canlynol:

- Beth yw'ch nodau chi?
- Beth yw'ch amserlenni chi?
- Oes gwybodaeth y gallwch chi ei defnyddio ar gael eisoes?
- Pa ddull/iau ymgysylltu y byddwch yn eu defnyddio?

Dylid cysylltu â Charfan Materion Polisiâu ac Ymgynghori'r Cyngor pan rydych chi am sefydlu ymarfer ymgysylltu. Byddan nhw'n gallu eich cynorthwyo a'ch cynghori.

Yn olaf, gwiriwch eich cynllun ymgysylltu yn erbyn [Egwyddorion Gunning](#) (dolen Saesneg yn unig) sydd i'w gweld isod. Maen nhw'n nodi 4 egwyddor ar gyfer ymgynghori mewn modd priodol. Mae modd eu defnyddio i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fod yn deg wrth gynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori.

Egwyddor 1
Rhaid ymgynghori pan fydd cynnig yn dal i fod ar y cam datblygu. Chewch chi ddim dod i benderfyniad ar y cam yma.
Egwyddor 2
Rhaid cyflwyno rhesymau digonol er mwyn caniatáu i bobl ystyried ac ymateb mewn ffordd ddeallus. A yw pobl wedi cael yr wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?
Egwyddor 3
Rhaid rhoi digon o amser i bobl ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir, gan gofio'r amgylchiadau?
Egwyddor 4
Rhaid ystyried canlyniad yr ymgynghoriad mewn modd cydwybodol wrth ddod i'r penderfyniad terfynol.

11. CYFIAWNHAU EFFAITH NEGYDDOL

Bydd yna adegau pan fydd modd cyfiawnhau effaith negyddol. Bydd hyn yn cael ei bennu mewn nifer o ffyrdd, ac mae rhai o'r rhain yn cael eu disgrifio isod:

- Am resymau lechyd a Diogelwch
- Lle bo'r effaith negyddol yn un a fydd yn para dros dro, a does dim posibilrwydd o leihau neu ddileu'r effaith (e.e. lle bo rheolau/rheoliadau yn cyfyngu ar y weithred)
- Lle bo'r effaith gadarnhaol gyffredinol yn drech na'r effeithiau negyddol

Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr. Mae modd cael cyngor pellach gan y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Os oes unrhyw bosibilrwydd y gall yr effaith negyddol wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a **fydd dim modd** ei chyfiawnhau, rhaid cymryd camau i ddileu unrhyw elfennau sy'n gwahaniaethu, ac os nad yw hynny'n bosibl, rhaid atal y cynnig rhag mynd ymhellach.

Lle caiff effeithiau negyddol eu nodi, **rhaid** cynnal Asesiad llawn.

12. PRYD DYLWN I YSTYRIED CYNNAL ASESIAID LLAWN?

Os yw'r broses sgrinio gychwynnol wedi datgelu effaith negyddol ar grŵp neu grwpiau penodol, yna **rhaid** cyflawni Asesiad llawn.

Mae proses yr Asesiad yn berthnasol i bob prosiect y mae'r Cyngor yn asiantaeth arweiniol arno yn rhan o bartneriaeth amlasiantaeth hefyd.

13. ASESU EFFAITH ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Wrth ddod i 'benderfyniadau strategol', mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gofyn i ni ystyried sut y gallai penderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

13.1 Beth yw diffiniad 'Penderfyniad Strategol' yn rhan o'r ddyletswydd?

Isod, mae rhai enghreifftiau (nid rhestr gynhwysfawr) o benderfyniadau strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol:

- Cyfarwyddeb a bwriad strategol
- Strategaethau wedi'u llunio gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus
- Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant a chydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

- Gwasanaethau cyhoeddus yn newid a datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau caffael a chomisiynu o bwys
- Datblygu polisi strategol

Bydd angen asesiad o anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer holl 'benderfyniadau allweddol' y Cyngor sy'n dod o dan gylch gorchwyl yr uchod.

13.2 Tystiolaeth ac Ymgysylltu

Yn yr un modd ag yr ydych wedi casglu ynghyd tystiolaeth ymchwil ac ystadegol gadarn ac wedi ymgysylltu â chymunedau a grwpiau perthnasol ar gyfer eich Aseiad, dylech chi ailadrodd hyn er mwyn nodi'r effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n werth cofio bod yna gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor sydd â gwybodaeth helaeth am grwpiau o bobl a chymunedau sy'n wynebu anghydraddoldebau o ran deilliannau. Dylid defnyddio'r wybodaeth yma'n adnodd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn galw ar yr adnoddau yma i'ch helpu i lunio eich achos busnes. Os ydych chi'n ansicr â phwy i gysylltu, anfonwch e-bost at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk a gallen nhw eich cynghori.

13.3 Enghreifftiau o Anghydraddoldeb o ran Deilliannau sy'n deillio o Anfantais Economaidd-gymdeithasol

Mae'r diagram isod (Saesneg yn unig) yn tynnu sylw at sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar anghydraddoldeb o ran deilliannau.

Relevant public bodies need to consider how their strategic decisions can improve inequality of outcome for people who suffer socio-economic disadvantage.



[\[Gwybodaeth ategol Llywodraeth Cymru am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol\]](#)

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur i gymunedau buddiant a chymunedau lle fel ei gilydd, gan arwain at anghydraddoldeb pellach o ran deilliannau a all fynd yn waeth fyth wrth ystyried rhyngblethedd. Isod, mae rhai enghreifftiau i'ch helpu chi i feddwl am effeithiau.

Cymunedau buddiant

Digartrefedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y deilliannau i bobl sy'n profi digartrefedd o ran eu hiechyd yn sylweddol waeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Wrth ystyried hyn o safbwynt rhyngblethedd, mae'n tynnu sylw at ba mor agored i niwed y mae pobl ifainc mewn perthynas â'r mater cymhleth yma. Mae hyn yn mynd yn waeth fyth os yw'r person ifanc yn LHDT+ neu o leiafrif ethnig. Enghraifft arall yw menywod digartref, a allai fod yn fwy agored i niwed oherwydd eu bod yn wynebu risg uwch o ddiodef troseddau yn eu herbyn. Mae yna lawer o anghydraddoldebau o ran deilliannau eraill i bobl ddigartref. Mae'r enghreifftiau yma yn rhoi cipolwg ar faterion i'w hystyried a'u hymchwilio.

[\[Cyf: Cymdeithas Llywodraeth Leol – The Impact of Homelessness for Health: A Guide for Local Authorities \(Saesneg yn unig\)\]](#)

Cymunedau Lle

Yn ôl dadansoddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd un o bob pedwar (25.3%) o oedolion yng Nghymru yn byw mewn tloedi cymharol yn 2015/16. Yn yr un flwyddyn roedd un o bob tri (34.1%) o blant yng Nghymru yn byw mewn tloedi. Mae rhai cymunedau yn RhCT lle mae crynhoad uwch o lefelau tloedi. Wrth ystyried hyn o safbwynt rhyngblethedd, mae'n tynnu sylw at y ffaith y gallai rhai

grwpiau yn y cymunedau hynny fod yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol bellach. Er enghraifft, pobl anabl. Yn 2015/16, roedd oedolion anabl yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tloedi (32.1%) o'u cymharu ag oedolion sydd ddim yn anabl (22.4%). Mae deilliannau addysg, cyflogaeth ac iechyd pobl anabl yn debygol o fod yn waeth. Efallai bydd pobl anabl yn wynebu rhwystrau wrth geisio cyrchu gwasanaethau a chludiant y Cyngor sydd ddim yn effeithio i'r un graddau ar bobl sydd ddim yn anabl.

[\[Cyf: A yw Cymru'n Decach? \(2018\)\]](#)

14. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ADRODD

Lle bo'r broses sgrinio wedi datgelu nad oes angen cynnal Asesiad llawn, dylai Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr priodol gymeradwyo hyn, a dylid dychwelyd copi o'r ffurflen i'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Lle mae angen Asesiad llawn, yna **rhaid** llenwi ffurflen Asesiad a chwblhau cynllun gweithredu sy'n nodi sut y caiff effeithiau negyddol eu lliniaru ar gyfer pob cynnig. Eto, dylai Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr priodol gymeradwyo hyn.

Rhaid anfon pob Asesiad wedi'i gwblhau, a'r rheiny sy'n cynnwys penderfyniadau allweddol a phenderfyniadau o natur strategol y Cyngor, i'r Garfan Gwasanaethau Democrataidd drwy e-bost: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk i'w hadolygu a'u cyflwyno i'r Panel Adolygu, a hynny cyn gosod eich adroddiad ger bron y Cabinet.

Cofiwch gwblhau pob adran o'r Asesiad cyn i chi ei anfon at y Panel Adolygu, gan fod rhaid i swyddogion y Panel Adolygu adolygu'r Asesiad cyflawn cyn iddi gael ei anfon at Uwch Reolwyr y Cyngor a chyn y daw penderfyniad arno drwy un o'r llwybrau penderfyniad ffurfiol.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darparu'r dogfennau o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y Panel Adolygu er mwyn galluogi swyddogion i asesu'ch dogfennau'n llawn ymlaen llaw. Gall diffyg rhybudd arwain at oedi ar gam y Panel Adolygu.

Beth yw'r Panel Adolygu?

Bydd y Panel Adolygu yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wahanol effeithiau'r cynnig. Bydd yn adolygu'r effeithiau wedi'u nodi ar ein cymunedau a sut y byddai modd diwygio'r cynnig i sicrhau deilliannau gwell. Bydd y panel yn gweithredu yn fesur diogelu ychwanegol i'r maes gwasanaeth trwy graffu'n ofalus ar y cynnig arfaethedig a'r asesiad effaith cychwynnol gan y Swyddog Arweiniol, a hynny er mwyn lleihau'r posibilrwydd o unrhyw gŵyn bosibl yn cael ei dwyn yn erbyn y Cyngor.

Bydd ystyriaethau'r panel ac ystyriaethau'r Swyddog Arweiniol ar ôl i adborth ddod i law (a thrwy unrhyw ymarfer ymgysylltu) bob amser yn cael eu cofnodi yn y dogfennau erfyn asesu effaith. Wedi hynny byddan nhw'n cael eu gosod ger bron y

rheiny sy'n dod i benderfyniadau. Bydd y gallu i ddangos tystiolaeth o ystyriaethau trwy'r erfyn asesu effaith yn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion statudol perthnasol ac yn darparu mwy o sylfaen dystiolaeth i'r rheiny sy'n dod i benderfyniadau wrth ddod i'w penderfyniad terfynol.

Bydd y panel yn cynnwys y swyddogion canlynol i sicrhau dull strwythuredig a chadarn:

- cynrychiolydd y Gwasanaethau Democrataidd/Cymorth gan Swyddog Gweithredol
- cynrychiolydd y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant
- cynrychiolydd y Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu
- cynrychiolydd Uned Gwasanaethau Cymraeg
- cynrychiolydd Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth/Pennaeth Gwasanaeth/Rheolwr Gwasanaeth o faes gwasanaeth sy'n wahanol i'r un sy'n paratoi'r cynnig polisi.

Bydd y panel yn cael ei gynnull gan Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd ar ôl derbyn eich asesiad effaith, eich cynnig/adroddiad a'ch adroddiad ymgynghori, fel y trafodwyd yn yr adran uchod. Dylai'r Swyddog Arweiniol grynhoi'r holl sylwadau a ddarperir gan aelodau'r panel yn nogfennau'r erfyn asesu.

Adroddiadau i'r Cabinet

Mae pob Adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am dystiolaeth bod Asesiad wedi'i gwblhau, a lle bo angen, cadarnhad ei fod wedi'i osod ger bron y Panel Adolygu a'u bod nhw wedi rhoi ystyriaeth iddo. Gan y byddwch chi'n gweithio yn unol â Rhaglen Waith y Cabinet mae'n **hanfodol** eich bod yn cynnwys digon o amser yn eich cynllun prosiect i gynnal ymarfer ymgysylltu cadarn, casglu data ynghyd a gosod eich adroddiad ger bron y Panel Adolygu. Rhaid hefyd ystyried unrhyw ofynion cyn-graffu a allai fod yn gysylltiedig â'ch adroddiad.

Effaith Sylweddol

Os yw effaith 'sylweddol' wedi'i nodi, rhaid cyhoeddi canlyniadau'r Asesiad ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiad y Cabinet, fel sy'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Dylech chi sicrhau eich bod chi'n rhoi gwybod i'r Garfan Rheoli Corfforaethol am unrhyw Asesiad sy'n datgelu effaith sylweddol, a'ch bod chi'n rhoi trefniadau ar waith i'w gyhoeddi.

Bydd y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb blynyddol a fydd yn cynnwys crynodeb o holl ganlyniadau'r Asesiad.

15. MANYLION CYSWLLT

Mae rhagor o wybodaeth am y canllawiau hyn ar gael yma:

Y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant
Tŷ Elái
01443 444529

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

15.1 PROBLEMAU POSIBL

Mae'r tabl isod yn disgrifio rhai o'r materion posibl y gallech chi eu hystyried wrth weithio gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodwedd warchoddedig.

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
Anabledd	<p>Mae'r grŵp yma'n amrywiol iawn. Mae'n cynnwys anableddau sy'n ymwneud â: symudedd, golwg, clyw, anableddau neu anawsterau lleferydd ac iaith, salwch meddwl, anawsterau neu anableddau dysgu, a salwch cronig fel canser a HIV.</p> <p>Gall person fod â mwy nag un anabledd.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n canolbwyntio ar ddileu rhwystrau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adeiladau sydd wedi eu dylunio'n wael Diffyg lifftiau/lifftiau sydd ddim yn gweithio Diffyg manau parcio Agweddau rhagrithiol neu ragfarnllyd Rhagolygon gwael o ran gwaith Nifer annigonol o weithwyr cymorth/galluogwyr/cyfathrebwyr 	<p>Hygyrchedd fformatau a chyfathrebu, arwyddion (e.e. Braille/casét sain/dolen sain/hawdd ei ddarllen).</p> <p>Mynediad corfforol a synhwraidd, gan gynnwys trafnidiaeth a'r amgylchedd adeiledig.</p> <p>Caniatáu digon o amser i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n fyddar, sydd â nam ar eu lleferydd, neu anabledd dysgu. Bydd angen caniatáu mwy o amser iddyn nhw ar gyfer apwyntiadau er mwyn caniatáu iddyn nhw fynegi eu safbwynt yn llwyr, neu ddeall yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddyn nhw. Mae angen ystyried hyn hefyd wrth drefnu cyfarfodydd cyhoeddus, ymgynghoriadau ac ati.</p> <p>Bydd modd atal llawer o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu trwy roi ychydig bach o feddwl i sut a phryd y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu.</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
		<p>Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ragweld anghenion cwsmeriaid anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu neu liniaru'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag defnyddio gwasanaethau. Dylai gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod pobl anabl yn gallu defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol. Mae yna ddyletswydd hefyd i wneud addasiadau rhesymol yn nhermau arferion cyflogaeth.</p>
Hil	<p>Mae hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Mae gan berson nodwedd warchodedig hil os yw'n perthyn i grŵp hil benodol, sef grŵp o bobl sy'n rhannu lliw croen, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol.</p>	<p>Fformatau cyfathrebu, anghenion ieithyddol, cyfieithu ac ystyriaethau diwylliannol.</p> <p>Effaith byw mewn amgylchedd lle mae'r mwyafrif o bobl yn wyn.</p> <p>Aflonyddwch hiliol uniongyrchol ac anuniongyrchol a throsteddau casineb.</p> <p>Ystyried sut y bydd materion diwylliannol yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
		<p>Teimladau o unigrwydd a phatrymau gwaith busnesau lleiafrifol.</p> <p>Tangyflawni, neu dangynrychiolaeth mewn rhai meysydd o fywyd a gwaith.</p>
Trawsryweddol	<p>Person trawsryweddol neu drawsrywiol yw rhywun â chyflwr o'r enw 'dysfforia rhyweddol'. Mae hyn yn golygu bod y nodweddion rhyweddol corfforol a gawson nhw o'u geni yn anghywir iddyn nhw.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o bobl drawsryweddol am fyw yn aelod o'r rhywedd y maen nhw'n uniaethu ag ef, ac mae hawl gyda nhw i wneud hynny o dan y gyfraith.</p>	<p>Mae cael gwasanaethau sy'n gorfodi pobl drawsryweddol i gael eu gweld yn eu rhywedd biolegol yn gallu achosi llawer o straen iddyn nhw a gwneud iddyn nhw deimlo fel eu bod yn cael eu diraddio.</p> <p>Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn caniatáu i bobl drawsryweddol sydd wedi ailbennu eu rhywedd wneud cais am dystysgrif cydnabod rhywedd.</p> <p>Ar ôl cyhoeddi tystysgrif cydnabod rhywedd, mae'r gyfraith yn ystyried y person yna i fod o'i rywedd/rhywedd newydd.</p>
Rhywedd	Menywod/merched, dynion/bechgyn.	<p>Oriau mynediad.</p> <p>Menywod sydd â'r prif gyfrifoldeb gofalu dros blant ifainc a pherthnasau hŷn fel arfer.</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
Rhywedd	Menywod/merched, dynion/bechgyn.	<p>Mae llawer o rieni sengl yn profi lefelau uchel o anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mynediad ffisegol (e.e. pramiau a phlantos bach). Tadau sengl – mae cyfleusterau newid cewynnau yn nhai bach menywod yn aml.</p> <p>Mae terminoleg gwasanaethau'n ffafrio mamau e.e. dylai mamau a phlantos fod yn rhieni a phlantos.</p> <p>Rhagdybiaethau rhyweddol ystrydebol.</p> <p>Tangyflawni neu dangynrychiolaeth, cydbwysedd ar grwpiau.</p>
Oed	Plant, pobl ifainc a rhieni ifainc, pobl oedrannus neu hŷn, pobl sydd wedi ymddeol.	<p>Rhagdybiaethau am amrediad oedran, gallu a safbwyntiau o ran cenedlaethau.</p> <p>Dylai gwasanaethau sicrhau nad ydyn nhw'n seiliedig ar ragdybiaethau o ran oedran, a'u bod yn cymryd pethau fel rhieni yn eu harddegau, plant sy'n gynhalwyr (gofalwyr) a phobl oedrannus fel defnyddwyr gwasanaethau i ystyriaeth.</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
Ffydd neu greddo	<p>Cymunedau neu unigolion â chredoau a chrefyddau amrywiol.</p> <p>Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu pobl heb unrhyw grefydd hefyd.</p>	<p>Parchu ac adlewyrchu diwylliannau, ffyrdd o fyw, arferion a gwerthoedd amrywiol ar gyfer menywod a dynion, bechgyn a merched (darpariaeth un rhyw).</p> <p>Dilyn rheolau bwyd, gan gynnwys rheolau am baratoi a storio bwyd.</p> <p>Rhoi sylw i ddathliadau crefyddol e.e. sut mae defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o staff yn cael dilyn arferion crefyddol megis ymprydio yn ystod Ramadan?</p> <p>Rhaid cydnabod a deall na fydd pawb sy'n perthyn i ffydd benodol o reidrwydd yn cydymffurfio â phob rhan o'r ffydd honno.</p> <p>O fewn pob ffydd benodol, bydd yna grwpiau unigol sydd â gwahanol greddoau ac arferion.</p>
Cyfeiriadedd Rhywiol	Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a heterorywiol.	<p>Rhagdybiaethau am fathau o bartneriaid neu deuluoedd, anweledd, urddas a rhagdybiaethau bod pawb mewn perthynas heterorywiol. Ffurflenni sydd ddim yn cynnwys opsiwn partneriaeth sifil/partneriaid. Ffurflenni sydd ddim yn cynnwys opsiwn partneriaeth sifil/partneriaid.</p> <p>Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn. Gall pobl eraill ragdybio eu bod yn heterorywiol os ydyn nhw'n briod/os ydyn nhw wedi bod yn briod.</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
		<p>Mae'n bosibl na fydd cartrefi seibiant/gofal yn darparu ar gyfer anghenion pobl oedrannus hoyw.</p>
Incwm	<p>Pobl sydd ag incwm isel neu dim incwm, pobl ddi-waith, gweithwyr rhan-amser a thymhorol.</p>	<p>Mynediad i drafndiaeth bersonol a thechnoleg gwybodaeth, costau gofal plant, gwaith sifft, grwpiau sydd o dan anfantais ddwbl (e.e. rhieni ifainc sengl, person hŷn â nam ar ei olwg).</p>
Yr Iaith Gymraeg	<p>Pobl y mae'r Gymraeg yn iaith ddewisol, hanfodol a/neu'n famiaith iddyn nhw.</p>	<p>Argaeledd gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg.</p> <p>Yn gorfod 'cyfieithu' gwybodaeth eiriol neu ysgrifenedig yn eu pen, sy'n gallu newid eu dealltwriaeth, eu canfyddiad neu eu mynegiant.</p> <p>Effaith byw mewn amgylchedd lle mae'r mwyafrif o bobl yn siarad Saesneg.</p> <p>Delio â diffyg dealltwriaeth o bwysigrwydd cael defnyddio eu hiaith ddewisol, hanfodol a/neu eu mamiaith.</p> <p>Delio â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg (diffyg cyfleoedd, rhagfarn).</p>

Cyfadran	Disgrifiad	Problemau Posibl
		Diffyg ymrwymiad gan sefydliadau i ddefnyddio neu i hybu defnydd o'r Gymraeg.
Arall	Er enghraifft: Cynhalwyr Rhieni Cyn-droseddwyr Menywod beichiog Cymuned y Lluoedd Arfog	Oriau agor, hygyrchedd gwybodaeth, cost ac argaeledd cymorth seibiant. Symudedd/cludiant hygyrch, parcio. Cyfleusterau tŷ bach. Argaeledd ystafelloedd tawel.